# Canllaw Hygyrchedd

## Parc Gwledig Pen-bre




Gwasanaeth Hamdden Awyr Agored

Gwasanaeth Hamdden Awyr Agored Outdoor Recreation Service

# Croeso

Rydym wedi gwneud ein gorau glas i sicrhau bod mynediad addas i gadeiriau olwyn a phobl anabl ym Mharc Gwledig Pen-bre drwy ddarparu llwybrau wedi'u tirlunio a rampiau. Fodd bynnag, nodwch ei fod yn atyniad gwledig sy'n ymestyn dros 520 erw.

Mae'r datganiad hygyrchedd yn nodi'r addasiadau ffisegol a'r mesurau rheoli a ddarperir ym mhob rhan o Barc Gwledig Pen-bre i hwyluso mynediad i bawb.

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y canllaw hwn mor gynhwysfawr a chywir â phosibl ac mae'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd. Fodd bynnag, yn unol â'n hymrwymiad i wella'n barhaus o ran darparu mynediad i bawb, gallai lefel y ddarpariaeth newid. Hefyd oherwydd methiant, gwaith cynnal a chadw neu ddigwyddiad annisgwyl arall, efallai na fydd mesurau ar gael dros dro weithiau.

Os bydd angen eglurhad arnoch ynghylch unrhyw agwedd ar y ddogfen hon neu os bydd unrhyw addasiad yn arbennig o bwysig er mwyn i chi fwynhau eich ymweliad, cysylltwch â'r ganolfan ymwelwyr drwy ffonio 01554 742435 i gadarnhau'r manylion. Darllenwch y Datganiad Hygyrchedd i gael rhagor o wybodaeth am ein polisi.

## Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau ynghylch hygyrchedd:

camppembrey@sirgar.gov.uk

Ffôn: 01554742435

www.parcgwledigpenbre.cymru

# Cipolwg

Mynediad Gwastad

## Clyw

- Nid oes gennym ddolen sain ym mhob man cyhoeddus yn ein cyfleusterau ar hyn o bryd.
- Mae dolen sain ar gael yn y Ganolfan Sgïo a Gweithgareddau yn y dderbynfa.
- Mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd.

## Golwg

- Mae gan ddrysau gwydr a ffenestri uchder llawn farciau cyferbyniol.
- Mae'r waliau a'r drysau yn wahanol iawn o ran lliw.
- Mae'r fwydlen ar gael mewn print bras.

# Cymorth ychwanegol

### *Offer hygyrchedd*

- Mae gennym ddolen sain ym mhob man cyhoeddus yn ein hatyniad.
- Rydym yn croesawu cŵn cymorth ac yn gallu darparu powlenni dŵr ar eu cyfer. Gofynnwch i aelod o staff am gymorth.

### *Gweithdrefnau gadael mewn argyfwng*

- Mae gennym weithdrefnau gadael mewn argyfwng ar gyfer ymwelwyr anabl.
- Os bydd angen gwacáu'r ardal, bydd yr holl gwsmeriaid y tu mewn yn cael eu harwain i le diogel gan aelod o'r tîm neu gan aelod o'r frigâd dân.

### *Cymorth gofal cwsmeriaid*

- Mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd.
- Mae rhai aelodau o staff wedi cael hyfforddiant BSL.
- Rydym yn darparu gwybodaeth mewn print bras.
- Darperir yr holl wybodaeth yn ddwyieithog – yn Gymraeg ac yn Saesneg.

# Sut i gyrraedd

Parc Gwledig Pen-bre
Pen-bre
Sir Gâr
SA16 0EJ

Mae gan Barc Gwledig Pen-bre gysylltiadau ffordd ardderchog ac mae wedi'i leoli ychydig oddi ar brif ffordd yr A484 rhwng Caerfyrddin a Llanelli. Mae cyffordd 49 yr M4 ond byr o dro i'r dwyrain o Lanelli (tua 30 munud i ffwrdd yn y car) ac mae'r A40 yn cwmpasu'r ffordd i'r gorllewin ac i'r gogledd o Gaerfyrddin.

# 🅿 Parcio

- Mae system rwystr newydd ar waith ym Mharc Gwledig Pen-bre sy'n cynnwys system Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig (ANPR).
- Mae modd gwneud taliadau yn unrhyw un o'r 3 man talu newydd sef: Mynedfa'r Traeth, y Ganolfan Sgïo a Gweithgareddau a'r Caban Pren cyn gadael y parc.
- Mae'r holl fannau talu wedi'u nodi'n glir a byddant yn derbyn taliadau â cherdyn, taliadau digyffwrdd ac arian parod
- Mae mynediad gwastad i bob man talu gyda sgrin arddangos isel ar gyfer talu ag arian parod a chardiau.
- Mae lleoedd parcio ar gael ym mhob rhan o'r parc. Mae meysydd parcio wedi'u tarmacio ar gael yr ochr draw i'r parc ar hyd y systemau twyni. Mae meysydd parcio 1 a 2 yn cynnig llwybrau gwastad wedi'u tarmacio sy'n arwain at y brif fynedfa i'r traeth, Siop Fach y Traeth a llwybr craidd caled i byllau'r cuddfannau adar a llwybrau coetir.
- Darperir lleoedd parcio i bobl anabl ger bwyty Yr Orsaf (gweler y wybodaeth benodol am Yr Orsaf)
- Darperir lleoedd parcio i bobl anabl ger y Ganolfan Sgïo a Gweithgareddau (gallwch gael rhagor o wybodaeth yn yr adran am y Ganolfan Sgïo a Gweithgareddau)

# Canolfan Sgïo a Gweithgareddau



- Y Llethr Sgïo ym Mharc Gwledig Pen-bre yw un o'r nifer fach o lethrau sgïo sych sydd ar ôl yng Nghymru. P'un a ydych yn sgïwr profiadol neu'n ddechreuwr, mae yno rywbeth at ddant pawb. Mae amrywiaeth o weithgareddau ar gael yn y Ganolfan Sgïo a Gweithgareddau, gan cynnwys golff Ffrisbi, sgio addasol, llogi beiciau addasol a golff giamocs. Mae hyfforddiant 1-1 a hyfforddiant grŵp ar gael ar gyfer y llethr sgïo sych. Mae pob hyfforddwr yn meddu ar gymhwyster Chwaraeon Anabledd Cymru (DSW) ac mae 1 yn meddu ar gymhwyster BASA

  Gallwch archebu neu gadarnhau a oes lle ar gael drwy ffonio 01554 834443.

## *Prif fynedfa*

- Mae ramp i'r brif fynedfa.
- Mae'r drws yn 840mm o led.
- Mae'r prif ddrws yn ddrws llithro awtomatig.

## *Lifft*

- Mae dwy lifft yn y Ganolfan Sgïo a Gweithgareddau.
- Gallwch gael lifft i bob rhan.

### *Lifft 1.*

- Ceir mynediad i'r lifft drwy'r brif fynedfa ac ar lawr gwaelod y Ganolfan Sgïo a Gweithgareddau.
- Mae'r brif fynedfa ger y maes parcio ac mae modd cael mynediad iddi drwy ramp.
- Mae'r prif ddrws mynediad yn awtomatig.
- Mae'r lifft yn datgan rhif y llawr ar bob llawr.
- Mae'r rhifau a'r llythrennau ar fotymau'r lifft wedi eu codi.
- Mae'r lifft yn dangos rhif y llawr, ar bob llawr.
- Mae'r lifft yn rhoi mynediad i lawr gwaelod a llawr cyntaf y Ganolfan Sgïo a Gweithgareddau. Gellir defnyddio'r lifft i gyrraedd y tobogan, y dderbynfa, y llethr sgïo, y teras awyr agored, y caffi sgïo, yr ystafell gyfarfod a swyddfa'r staff.

### *Lifft 2.*

- Ceir mynediad i'r lifft o lawr cyntaf y Ganolfan Sgïo a Gweithgareddau, y tu allan i'r drws cefn i'r decin gwylio/bwyta â mynediad gwastad.
- Nid yw'r drws i'r tu allan yn awtomatig. Mae'n agor drwy ei wthio a bydd yn cloi yn ei le pan gaiff ei agor yn llawn. Bydd aelod o staff yn helpu os bydd angen
- Mae'r lifft yn rhoi mynediad i'r man gwylio isaf ar gyfer y llethr sgïo sych, y teras a'r llethr sgïo ei hun.

## *Toiledau cyhoeddus*

- Mae 2 doiled cyhoeddus ar gyfer ymwelwyr anabl yn y Ganolfan Sgïo a Gweithgareddau. 1 yn nhoiledau'r dynion ac 1 yn nhoiledau'r merched.
- Mae'r ddau doiled i bobl anabl ar lawr gwaelod yr adeilad, ac mae mynediad gwastad iddynt o'r brif fynedfa i'r toiled cyhoeddus.
- 
- Mae drws y toiled yn 800mm o led.
- Mae 780mm o flaen y toiled. Mae sedd y toiled yn 480mm o uchder.
- Mae canllawiau cydio llorweddol ar ochr chwith y toiled. Mae cyfleusterau newid cewynnau yn y toiled hwn.

## Cyfleuster Changing Places

*Mae ein cyfleuster Changing Places wedi'i leoli ar y llawr gwaelod yn y Ganolfan Sgïo a Gweithgareddau*

## Nodweddion y cyfleuster

- Mainc - gellir addasu ei huchder, maint oedolyn, ar ei thraed ei hun
- Teclyn codi - Nenfwd, Dolen
- Toiled Penrhyn
- Llawr di-lithr
- Arwynebedd llawr (metr sgwâr
- Larwm argyfwng
- Sgrin Preifatrwydd
- Rholyn Papur
- Wedi'i reoli
- Cawod Hygyrch
- Silff Colostomi



## Gweithgareddau

- Mae amrywiaeth o weithgareddau hygyrch ar gael i'w llogi yn y Ganolfan Sgïo a Gweithgareddau. Rydym yn argymell bod unrhyw offer yn cael ei archebu ymlaen llaw i sicrhau ei fod ar gael ar adegau prysurach drwy ffonio 01554 834443
- Mae pob hyfforddwr yn meddu ar gymhwyster Chwaraeon Anabledd Cymru (DSW) ac mae 1 yn meddu ar gymhwyster BASA

## Sgïo Addasol

- Sgïau â sedd

## Beicio Addasol

- Beic cwad
- Beic 4 sedd
- Beic 2 sedd
- Beiciau tair ol
- Beiciau tandem
- Beiciau ramp
- Beiciau Duet







- Beiciau Llaw
- Beiciau gorweddol USS

## Mynediad i'r Traeth

- Mae Sandcruiser, sef cadair olwyn pob tir ar gyfer y traeth, ar gael o Siop Fach y Traeth yn ystod y tymor prysur.



# Golff Antur

- Mae ardal Golff Antur yn gwbl hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.
- Mae modd cyrraedd yr ardal drwy ramp drwy'r caban pren golff.
- Mae'r llwybrau wedi cael eu lliwio i gyferbynnu â'r borfa o'u hamgylch
- Mae pob llwybr sy'n arwain at bob twll ag wyneb concrit gweadog.
- Mae teclyn estynedig i gydio mewn peli a chlybiau addasol ar gael os oes angen.

# Lleoedd chwarae

- Mae'r lleoedd chwarae ger y rheilffordd fechan ac mae modd cael mynediad iddynt drwy lwybr craidd caled o faes parcio wedi'i darmacio.
- Ceir mynediad i bob un drwy gât sbring â chlicied lithro. Mae'r gatiau'n 800mm o led
- Mae'r lloriau yn y lleoedd chwarae yn gyfuniad o loriau diogelwch a thywod
- Mae amrywiaeth o offer chwarae hygyrch

- ***Toiledau cyhoeddus***

- Mae'r toiledau hygyrch agosaf i'r lle chwarae ym maes parcio'r rheilffordd fechan.
- Mae mynediad gwastad i'r toiledau hyn, o faes parcio ag wyneb concrid gweadog
- Mae drws y toiled yn 800mm o led.
- Mae 780mm o flaen y toiled. Mae sedd y toiled yn 480mm o uchder.

- Mae canllawiau cydio llorweddol ar ochr chwith y toiled. Mae cyfleusterau newid cewynnau yn y toiled hwn.



## Cylchffordd Gaeedig Genedlaethol

- Mae'r gylchffordd yn darparu amgylchedd diogel, di-draffig ar gyfer sesiynau hyfforddi.
- Mae'n gyfleuster oddi ar y ffordd pwrpasol newydd mewn amgylchedd diogel sy'n cynnwys cylchffordd 1.9km o hyd ag wyneb wedi'i darmacio 6 metr o led a gynlluniwyd yn unol â safonau Beicio Prydain.
- Mae'r cyhoedd yn gallu cael mynediad i'r cwrs a'i ddefnyddio'n rhad ac am ddim (yn amodol ar yr amodau defnyddio) pan na fydd wedi cael ei archebu.
- Mae nifer fach o leoedd parcio ar gael wrth ymyl y fynedfa i'r Gylchffordd Gaeedig ar y borfa.
- Mae'r mynediad i'r Gylchffordd Gaeedig yn wastad ag wyneb llyfn wedi'i darmarcio drwy gât sy'n addas ar gyfer beiciau addasol.
- Mae'r toiledau hygyrch agosaf yn y Ganolfan Sgïo a Gweithgareddau (gweler yr adran am y Ganolfan Sgïo a Gweithgareddau i gael rhagor o wybodaeth)




# Rheilffordd Fechan

Caiff Rheilffordd Fechan Pen-bre ei chynnal a'i rheoli'n wirfoddol gan Beirianwyr Modelau Llanelli a'r Cylch, sy'n cynnwys pobl sy'n dwlu ar beirianneg a rheilffyrdd.Gofynnir i chi gysylltu â nhw'n uniongyrchol drwy ffonio 01554 770867 i gael rhagor o wybodaeth.



# Lleoedd i fwyta ac yfed

## Yr Orsaf

Mae bwyty Yr Orsaf ger y wersyllfa ac mae'n cynnig brecwast gwych, cinio hyfryd a swper blasus. Mae bar trwyddedig gan Yr Orsaf hefyd. Gallwch archebu bwrdd drwy ffonio 01554 742435.




- Mae mynediad gwastad i Yr Orsaf o fan parcio i bobl anabl sydd wedi'i darmacio. Mae mynediad gwastad yn parhau i'r teras blaen wedi'i darmacio sy'n arwain at y drysau mynediad o flaen yr adeilad.
- Mae mynediad gwastad gan y drysau mynediad drwy ddrysau dwbl sy'n agor yn awtomatig.
- Mae Yr Orsaf yn fwyty sy'n darparu gwasanaeth gweini wrth y bwrdd, ac mae'n rhaid archebu wrth y bar ym mhen arall yr adeilad.
- Mae rhan o'r bar yn is i roi mynediad i gadeiriau olwyn.
- Mae staff cyfeillgar a chymwynasgar yn hapus i gymryd archebion wrth y bwrdd pan fydd hynny'n bosibl a lle mae angen cymorth.
- Mae'r goleuadau'n llachar gyda sbotoleuadau LED. Weithiau gall y goleuadau fod yn llai llachar gyda'r hwyr.
- Mae sgriniau gwybodaeth yn llachar ac nid ydynt yn swnllyd.
- Mae drysau 'tynnu' dwbl yn arwain o'r bwyty i ystafell ddigwyddiadau Cedar
- Mae'r holl arwyddion yn y bwyty ac o'i amgylch yn isel ac mewn Braille
- Mae bwydlen print bras ar gael ar gais.
- Mae'r byrddau a'r platiau yn wahanol iawn o ran lliw.
- Rydym yn darparu ar gyfer deietau heb siwgr (diabetig), llysieuol, fegan a heb glwten (seliag).
- Drwy roi rhybudd ymlaen llaw, gellir darparu ar gyfer yr holl ofynion o ran deiet. Rydym hefyd yn darparu llaeth soia ar gyfer coffi, te a siocled poeth.
- Mae croeso i gŵn cymorth. Rydym yn hapus i ddarparu dŵr yfed ffres os bydd angen

## Toiledau cyhoeddus

- Mae toiledau hygyrch ar gael drwy un drws 'tynnu' o'r bwyty. Mae staff ar gael i gynorthwyo os bydd angen.
- Mae drws y toiled yn 800mm o led.
- Mae 780mm o flaen y toiled. Mae sedd y toiled yn 480mm o uchder.

- Mae canllawiau cydio llorweddol ar ochr chwith y toiled. Mae cyfleusterau newid cewynnau yn y toiled hwn.
- Hefyd mae toiledau hygyrch y tu allan i adeilad Yr Orsaf ar yr ochr sydd agosaf at y maes parcio a'r wersyllfa.
- Ceir mynediad i'r toiledau hyn o faes parcio gwastad wedi'i darmacio a ramp bach sy'n arwain at ddrws â dolen 'tynnu'.
- Mae'r drws allanol yn 800mm o led.
- Mae drws y toiled yn 800mm o led.
- Mae 780mm o flaen y toiled. Mae sedd y toiled yn 480mm o uchder.
- Mae canllawiau cydio llorweddol ar ochr chwith y toliet. Mae cyfleusterau newid cewynnau yn y toiled hwn.

## Siop Fach y Traeth

Dyma le gwych i brynu diod oer neu hufen iâ Mario's. Mae detholiad bach o eitemau hanfodol ar gyfer y traeth hefyd ar gael i'w prynu. Mae Siop Fach y Traeth ar agor yn ystod y tymor prysur yn unig.

- Mae Siop Fach y Traeth ger y brif fynedfa i'r traeth.
- Meysydd parcio 2 a 3 sydd wedi'u tarmacio yw'r rhai agosaf at y brif fynediad i'r traeth a Siop Fach y Traeth.
- Mae llwybrau'n llydan ac wedi'u tarmacio, gydag ychydig o lethr i'r ddau ac oddi yno.
- Mae'r llwybr i'r siop yn wastad ac wedi'i balmantu.
- Mae'r cownter gweini tua 1.6 metr o uchder.
- Mae staff cyfeillgar a chymwynasgar yn hapus i ddod o flaen y cownter i gyfathrebu os oes angen, neu i roi eitemau i chi/cymryd taliad oddi wrthych.

**Toiledau cyhoeddus**

- Mae toiledau i bobl anabl ger Siop Fach y Traeth, wrth ymyl y fynedfa i doiled y merched.
- Mae'r mynediad i'r toiledau i bobl anabl ger y brif fynedfa i'r traeth yn wastad ag wyneb wedi'i balmantu â blociau.
- Mae'r drws allanol yn 800mm o led
- Mae drws y toiled yn 800mm o led.
- Mae 780mm o flaen y toiled. Mae sedd y toiled yn 480mm o uchder.
- Mae canllawiau cydio llorweddol ar ochr chwith y toliet. Mae cyfleusterau newid cewynnau yn y toiled hwn.

## Caffi Sgïo



- Yn y Ganolfan Sgïo a Gweithgareddau mae siop goffi sy'n cynnig gwasanaeth archebu wrth y cownter sy'n gweini paninis ffres, brechdanau lapio, tatws pob, byrbrydau a diodydd poeth ac oer. Mae'n lle delfrydol i chi gael gorffwys cyn dechrau ar y llethr sgïo.
- Gallwch archebu wrth y cownter sydd tua 1 metr o uchder. Mae cownter isel hefyd ar gael os oes angen.
- Mae staff cyfeillgar a chymwynasgar yn hapus i ddod o flaen y cownter i gyfathrebu os oes angen, neu i roi eitemau i chi/cymryd taliad oddi wrthych.
- Mae'r caffi sgïo ar lawr cyntaf y ganolfan.
- Ceir mynediad i'r lifft drwy'r brif fynedfa ac ar lawr gwaelod y Ganolfan Sgïo a Gweithgareddau.
- Mae'r brif fynedfa ger y maes parcio ac mae modd cael mynediad iddi drwy ramp.
- Mae'r prif ddrws mynediad yn awtomatig.
- Mae'r lifft yn datgan rhif y llawr ar bob llawr.
- Mae'r rhifau a'r llythrennau ar fotymau'r lifft wedi eu codi.
- Mae'r lifft yn dangos rhif y llawr, ar bob llawr.
- Mae'r lifft yn rhoi mynediad i lawr gwaelod a llawr cyntaf y Ganolfan Sgïo a Gweithgareddau. Mae'r lifft hefyd yn rhoi mynediad i'r dderbynfa, y llethr sgïo, y teras awyr agored, y caffi sgïo, yr ystafell gyfarfod a swyddfa'r staff.

## Canolfan Ymwelwyr




Lleolir y ganolfan ymwelwyr ym mhen pellaf adeilad y bwyty, sef Yr Orsaf, ac mae ar agor rhwng 10:00 a 16:00 bob dydd. Yn y ganolfan ymwelwyr, byddwch yn gallu cael gwybodaeth gyffredinol am y parc, gan gynnwys mapiau, gwybodaeth am yr ardal leol, archebion y bwyty, archebion y wersyllfa ac ymholiadau. Gallwch hefyd archebu bwrdd yn y bwyty neu brynu hawlen barcio am y tymor a chyflwyno cwyn neu ganmoliaeth.

- Mae modd cyrraedd y fynedfa drwy ddilyn llwybr wedi'i darmacio o fan parcio i bobl anabl i ddrws awtomatig, ac mae digon o le i gadeiriau olwyn.
- Mae lle i gadair olwyn y tu mewn i'r ganolfan ond gall fynd yn orlawn pan fydd yn brysur.
- Mae'r cynorthwyydd gwasanaethau cwsmeriaid yn eistedd y tu ôl i gownter tua 1.6 metr o uchder, ac mae cownter is wrth ymyl os oes angen.
- Mae dolen sain ar gael.
- Mae'r holl arwyddion yn isel ac mewn Braille.
- Nid oes toiled yn y ganolfan ymwelwyr. Mae'r toiledau hygyrch agosaf ym mhen arall yr adeilad drwy lwybr wedi'i darmacio, neu ym mwyty Yr Orsaf.

## 🚐 Gwersyllfa



Gwersyllfa Parc Gwledig Pen-bre, a leolir mewn 500 erw o harddwch naturiol, yw'r lle delfrydol ar gyfer gwyliau ymlaciol. O gofio lleoliad ac amgylchedd naturiol y Parc, mae'n fan heddychlon, perffaith ar gyfer gwyliau mewn carafán neu babell gan ei fod yn agos i goetiroedd a thraeth Cefn Sidan. Mae Parc Gwledig Pen-bre yn nefoedd i archwilwyr, cerddwyr a beicwyr. Gyda chyfleusterau gwych i'r teulu ac i bobl anabl, mae ein gwersyllfa yn darparu ar gyfer pawb

Mae'r parc yn darparu ar gyfer pob math o wersylla, gan gynnwys pebyll, pebyll ar drelar, cartrefi modur, faniau gwersylla, gyda chyfanswm o 320 o leiniau porfa naturiol, gan gynnwys rhai â thrydan, rhai heb drydan a rhai â gwasanaeth llawn (gyda gwastraff llwyd trydan a man dŵr).

Rydym hefyd yn cynnig lleiniau tymhorol sy'n cynnwys dau opsiwn, sef tymor llawn neu dymor yr haf.

Mae modd archebu ar-lein drwy fynd i http://www.parcgwledigpenbre.cymru/gwersyllfa-1/ yn bersonol yn ein canolfan ymwelwyr, neu drwy ffonio 01554 742435.

**Gellir cyrraedd ar ôl 1pm a chyn 8pm. Amser gadael yw 12pm.**

## Cyn cyrraedd

- Rydym yn hapus i gyfathrebu dros y ffôn, drwy ffacs, Skype, e-bost a gohebiaeth drwy'r post.
- Mae copi o'r datganiad hygyrchedd hwn ar gael mewn print bras a thrwy'r post, ffacs neu e-bost ar gais.
- Mae ein staff bob amser yn hapus i drafod ein cyfleusterau a'ch pryderon hyd yn oed cyn gwneud archeb. Mae croeso ichi holi.

## Ar y safle

- Caniateir parcio ar bob llain wersylla/carafanio.
- Mae staff yn fwy na pharod i roi cyngor ar leoliad lleiniau ac a ydynt yn addas ar gyfer eich gofynion.
- Mae'r brif ardal wersylla yn cynnwys cae gwastad 7 erw ac mae gan bob un o'n cyfleusterau yn y prif ardaloedd cyhoeddus fynediad gwastad a drysau llydan iawn.
- Derbynnir cŵn tywys, cŵn clyw a chŵn cymorth ym mhob ardal yn rhad ac am ddim.
- Mae wyneb tarmac ar y brif ffordd drwy'r safle.
- Darperir goleuadau ategol drwy'r wersyllfa ar hyd y ffyrdd, ac yn arwain at y cyfleusterau.
- Darperir rhif ffôn argyfwng 24 awr ar ôl cyrraedd, os bydd angen i chi gysylltu ag aelod o staff mewn argyfwng.
- Mae whilfiniau mawr 1100 litr yn cael eu darparu ar gyfer gwastraff cyffredinol ac ailgylchu. Bydd aelod o'r tîm yn hapus i helpu os bydd angen cymorth arnoch o ran y rhain.

## Cyfleusterau

Mae dau floc toiledau a chawodydd ar y wersyllfa. Mae un ger y brif fynedfa i'r wersyllfa (Bloc 1) ac un ym mhen draw'r wersyllfa (Bloc 2)



### Bloc 1

- Ceir mynediad i'r cyfleuster hwn drwy ffordd wedi'i tharmacio, i goncrit gweadog.
- Mae ganddo ddrysau mynediad llydan ac mae pob rhan yn wastad.
- Mae wedi'i oleuo'n dda ac mae ar gael 24 awr y dydd.
- Mae'r bloc hwn yn cynnig cyfleusterau i ferched a dynion ar wahân. Mae toiledau i bobl anabl yn y ddau.
- Mae'r drws allanol yn 800mm o led.
- Mae drws y toiled yn 800mm o led.
- Mae 780mm o flaen y toiled. Mae sedd y toiled yn 480mm o uchder.
- Mae canllawiau cydio llorweddol ar ochr chwith y toiled.

- Mae lle golchi llestri helaeth dan do. Mae'r sinc tua 1.2 metr o uchder. Bydd aelod cyfeillgar a chymwynasgar o dîm y wersyllfa yn hapus i helpu os bydd angen cymorth.

## Bloc 2

- Ceir mynediad i'r cyfleuster hwn drwy lwybrau a ffyrdd wedi'u tarmacio ag ychydig bach o lethr.
- Mae ganddo ddrysau mynediad llydan sy'n arwain at doiledau'r dynion a thoiledau'r merched.
- Mae ganddo ddrysau mynediad dwbl llydan sy'n arwain at yr ystafell golchi llestri
- Mae'r sinciau yn yr ardal hon yn 1.2m o uchder
- Mae toiledau hygyrch yn y toiledau i ferched a dynion ac yn ardal y cawodydd.
- Mae'r drws allanol yn 800mm o led.
- Mae drws y toiled yn 800mm o led.
- Mae 780mm o flaen y toiled. Mae sedd y toiled yn 480mm o uchder.
- Mae canllawiau cydio llorweddol ar ochr chwith y toiled.
- Mae lle golchi llestri helaeth dan do. Mae'r sinc tua 1.2 metr o uchder. Bydd aelod cyfeillgar a chymwynasgar o dîm y wersyllfa yn hapus i helpu os bydd angen cymorth.
- Mae ciwbiclau yn ardal y cawodydd i ferched a dynion ac mae lle ychwanegol i gadair olwyn/teuluoedd.
- Mae ystafell wlyb hygyrch ychwanegol â'r holl offer angenrheidiol ar gael yn yr ystafell hon.



**Parc Gwledig Pen-bre**
**Pen-bre**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA16 0EJ**
**Ffôn: 01554 742435**